



## **Pecyn eiriolaeth Etholiad Cyffredinol 2019 ar gyfer ymgyrchwyr**

### **Leonard Cheshire**

Mae Leonard Cheshire yn cefnogi unigolion i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y dewisant, waeth beth yw eu gallu. Dan arweiniad pobl a chanddynt brofiad o anabledd, rydym yn rhan ganolog o fywyd cymunedau – gan agor drysau i gyfle, dewis a chefnogaeth mewn cymunedau ym mhedwar ban byd.

Mae etholiadau cyffredinol yn gyfle pwysig iawn inni ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau ac ymgeisyddion sy'n cynnig eu henwau i'w hethol i'r Senedd. Gall addewid gan blaid neu ymgeisydd yn ystod y cyfnod hwn arwain at newid gwirioneddol. Fel elusen, rhaid i Leonard Cheshire aros yn wleidyddol ddiduedd. Ni allwn gefnogi pleidiau neu ymgeisyddion penodol, ond gallwn ofyn cwestiynau i ymgeisyddion am yr hyn y bwriadant ei wneud os cânt eu hethol.

Mae ymgeisyddion gwleidyddol eisiau gwybod sut allant gefnogi pobl yn eu hardal leol, felly cofiwch rannu eich profiadau personol a gofynnwch y cwestiynau sy'n bwysig ichi yn eich geiriau eich hun. Byddai'n syniad da hefyd sôn am unrhyw fanylion a gwybodaeth am eich ardal a'ch cymuned leol pan fyddwch yn siarad â nhw.

### **Cyfarfod â'ch ymgeisydd lleol**

Mae'r etholiad cyffredinol yn gyfle gwych ichi fel ymgyrchydd i godi eich llais! Gallwch ofyn cwestiynau i'ch ymgeisydd lleol am faterion sy'n bwysig ichi. Cyfarfod eich ymgeisydd lleol yn bersonol yw'r ffordd fwyaf grymus o godi'r materion sy'n bwysig ichi.

Gallwch ddod o hyd i enwau a manylion cyswllt eich ymgeisyddion lleol ar-lein. Mae enwau ymgeisyddion sy'n sefyll dros y prif bleidiau gwleidyddol i'w gweld ar wefannau'r pleidiau.

### **Mynd i ddigwyddiad hystings**

Cynhelir digwyddiadau hystings yn ystod ymgyrchoedd etholiad ac maent yn gyfle i ymgeisydd neu ymgeisyddion seneddol gymryd rhan mewn trafodaeth neu draddodi araith i'r gymuned leol ac i fudiadau amrywiol. Mae hystings lleol gyda'r ymgeisyddion sy'n sefyll yn yr etholiad yn gyfle gwych hefyd i ofyn cwestiynau am sut fyddant yn mynd i'r afael ag anghenion pobl anabl.



Os ydych yn cyfarfod â'ch ymgeisydd neu'n cysylltu ag ef neu hi, rydym wedi awgrymu rhai cwestiynau allai helpu llywio eich sgwrs gyda nhw.

## **1. Creu system drafnidiaeth sy'n hygyrch i bawb**

Gall trafndiaeth gyhoeddus hygyrch ac o ansawdd da wneud y gwahaniaeth rhwng gweld teulu a chyfeillion a gallu mynd i'r gwaith yn hwylus. Fodd bynnag, mae llawer o orsafoedd a theithiau trên yn anhygyrch i lawer o bobl anabl. Mae ein hymchwil yn dangos nad oes gan fwy na 40 y cant o'r holl orsafoedd rheilffordd ym Mhrydain fynediad di-ris.

### **Gofynnwch i'ch ymgeisyddion:**

- Beth yn eich barn chi yw'r prif rwystr i bobl anabl wrth ddefnyddio trenau?
- Os cewch eich ethol, beth fyddwch chi'n ei wneud i wneud trenau yn eich etholaeth yn fwy hygyrch?

## **2. Cefnogaeth gofal cymdeithasol i bawb sydd ei angen**

Mae mwy na miliwn o bobl anabl a hŷn yng ngwledydd Prydain yn derbyn cymorth gofal cymdeithasol i fyw'n annibynnol ac i drefnu eu bywydau beunyddiol. Fel y GIG, mae gofal cymdeithasol yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar ofal a chefnogaeth i'w helpu gyda thasgau bob dydd, fel ymolchi, gwisgo a bwyta. Mae gofal cymdeithasol yn chwarae rôl hollbwysig hefyd yn cefnogi pobl i fynd i mewn i, neu i aros ym, myd gwaith, dysgu a gwirfoddoli.

Mae toriadau i gyllidebau gofal cymdeithasol wedi cyfyngu gallu pobl i dderbyn gofal cymdeithasol. Mae mwy na chwarter oedolion anabl oed gwaith (18-64 oed) wedi gweld eu gofal yn lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cael effaith ddifäol ar bobl anabl, gan eu gwneud yn ynysig ac yn llai abl i reoli eu bywydau eu hunain.

### **Gofynnwch i'ch ymgeisyddion:**

- Os cewch eich ethol, fyddwch chi'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion pobl anabl oed gwaith?
- Sut fyddwch chi'n cefnogi pobl anabl i fyw bywydau llawn ac annibynnol yn ein hardal leol?

## **3. Gwneud gweithleoedd yn gynhwysol i bobl anabl**

Dylai pawb allu cael gwaith, waeth beth yw eu hanabledd. Er bod ganddynt y sgiliau a'r profiad iawn, mae llawer o bobl anabl yn dal i wynebu cryn rwystrau wrth geisio mynd i mewn i fyd gwaith.

Mae bwlch sylweddol o hyd rhwng canran y bobl anabl sydd mewn gwaith a'r ffigur ar gyfer gweddill y boblogaeth. Mae ein hymchwil yn dangos fod 73% o bobl anabl



yng ngwledydd Prydain wedi gadael byd gwaith oherwydd eu hanabledd neu gyflwr. Rydym yn galw am gyflwyno trefn orfodol o adrodd nifer y gweithwyr anabl mewn busnesau mawr fel bod gweithleoedd yn gwbl gynhwysol a theg.

**Gofynnwch i'ch ymgeisyddion:**

- Beth fyddwch chi'n ei wneud i gefnogi pobl anabl i gael swyddi o ansawdd da?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallai cyflogwyr roi gwell cefnogaeth i bobl anabl?
- Fyddwch chi'n galw ar fusnesau mawr i adrodd faint o bobl anabl maen nhw'n eu cyflogi, yn yr un modd ag y mae disgwyl iddynt adrodd ar eu bylchau cyflog rhwng dynion a menywod?

**4. Torri'r cyswllt rhwng anabledd a thlodi**

Mae cyswllt agos rhwng anabledd a thlodi, ac mae llawer o bobl anabl yn ennill llai ac yn wynebu costau byw uwch oherwydd costau yn gysylltiedig â'u hanabledd. Ar hyn o bryd mae 4.3 miliwn o bobl anabl yn byw mewn tlodi ac mae pobl anabl oed gwaith yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl nad ydynt yn anabl.

**Gofynnwch i'ch ymgeisyddion:**

- Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod y system les yn helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol gydag urddas?
- Sut fyddwch chi'n cynnwys pobl anabl o'n hardal leol i wneud yn siŵr fod y system les yn gweithio iddyn nhw?

**5. Cefnogi pobl anabl ar bedwar ban byd**

Mae mwy nac un biliwn o bobl anabl ar draws y byd, ac maen nhw'n aml yn cael eu hamddifadu rhag yr hawliau dynol mwyaf sylfaenol ac yn methu manteisio ar gyfleoedd addysg, gofal iechyd a gwaith. Trwy ei rhaglenni datblygu rhyngwladol, mae'r DG wedi eiriol dros hawliau pobl anabl ar draws y byd ac mae wedi gweithio i wneud yn siŵr nad yw pobl anabl yn cael eu gadael ar ôl. Dylai'r llywodraeth nesaf barhau i gefnogi pobl anabl ar bedwar ban byd.

**Gofynnwch i'ch ymgeisyddion:**

- Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod pobl anabl ledled y byd yn cael cefnogaeth trwy gymorth rhyngwladol y DG?
- Os cewch eich ethol, a fyddwch yn amddiffyn a chefnogi neilltuo 0.7 y cant o CDG i gymorth rhyngwladol?
- Fyddwch chi'n ymrwymo i gefnogi addysg gynhwysol, o ansawdd uchel ar gyfer pobl anabl ar draws y byd?

Diolch ichi am gefnogi ein gwaith ymgyrchu a phob hwyl gyda chyfarfod eich ymgeisyddion neu fynd i ddigwyddiad hystings.

**Cysylltu â ni:**

Er mwyn cael mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod inni sut hwyl rydych yn ei gael, e-bostiwch [campaigns@leonardcheshire.org](mailto:campaigns@leonardcheshire.org)